BE THE WAVE
AR FRIG Y DON

# Stopio'r Bloc

Cynllun Gwers




cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

| **Nodau** |
|---|
| • Dealltwriaeth glir o sut mae systemau carthffosiaeth yn gweithio a sut maen nhw'n cyfrannu at lygru afonydd a chefnforoedd<br>• Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â sbwriel morol a llygredd ac annog disgyblion i weithredu'n adeiladol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol |
| **Amcanion** |
| • Esbonio'r gwahaniaeth rhwng system garthffos gyfun a system garthffos ar wahân, taith y carthion drwy'r systemau hyn a'r effaith amgylcheddol.<br>• Nodi'r hyn na ddylech fflysio i lawr y toiled a'r rhesymau dros hyn.<br>• Gweithredu i ddatrys y problemau hyn a newid ymddygiad pobl.<br>• Cymhwyso gwybodaeth o ffynonellau sbwriel morol i fywyd bob dydd drwy weithrediadau @BodArFrigYDon a rhaglen Eco-Sgolion. |

| **Pwnc Eco-Sgolion** | **Nodau Byd-eang** |
|---|---|
| • Dŵr<br>• Sbwriel<br>• Lleihau Gwastraff | • 6 Dŵr glân a glanweithdra<br>• 12 – Defnydd cyfrifol<br>• 14 – Byw o dan y dŵr |

| **Diben** | |
|---|---|
| Dysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n:<br>• Ymgymryd ag ymchwil a gwerthuso'n feirniadol yr hyn y maent yn ei ganfod<br>• Adeiladu corff o wybodaeth<br>Dinasyddion moesegol, gwybodus sy'n:<br>• Cymryd rhan mewn materion cyfoes, deall ac ystyried eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu<br>• Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned.<br>Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:<br>• Cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion. | |
| **Beth sy'n Bwysig** | **Cam Cynnydd 3/4** |
| Dyniaethau<br>• Meddu ar ddealltwriaeth o gyfrifoldebau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol eich hun ac eraill wrth greu Gwyddoniaeth a Thechnoleg gynaliadwy yn y dyfodol<br>• Esbonio sut mae effaith ein gweithredoedd yn cyfrannu at newidiadau yn yr amgylchedd a bioamrywiaeth.<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>• Arsylwi a disgrifio'r ffyrdd y mae deunyddiau'n newid pan fyddant yn cael eu cymysgu gyda'i gilydd<br>• Adnabod y gall yr hyn rwy'n ei wneud a'r pethau rwy'n eu defnyddio gael effaith ar fy amgylchedd ac ar bethau byw. | |
| **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** | **Cam Cynnydd 3/4** |
| • Defnyddio amrywiaeth o feddalwedd, offer a thechnegau i greu canlyniad prosiect proffesiynol, unigol neu gydweithredol sy'n cynnwys ystod o gydrannau amlgyfrwng.<br>• Sicrhau bod fy allbwn yn briodol at ddibenion penodol. | |

| Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd | Cam Cynnydd 4 |
|---|---|
| • Rhannu, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, fy nheimladau a'm barn gan ddangos empathi a pharch.<br>• Cyflwyno fy ngwaith yn briodol mewn cyd-destunau digidol gan ddefnyddio confensiynau digidol priodol. | |

| Cynefin |
|---|
| Mae pob fideo sydd wedi'u cynnwys wedi'u gwneud gan Dŵr Cymru.<br>Mae'r lluniau o fynyddoedd braster a llifogydd amgylcheddol i gyd yng Nghymru.<br>Mae'r fideo Panorama yn cynnwys darn am Gymru.<br>Gofynnir i ddisgyblion ystyried darpariaeth draeniau yn eu cymunedau ac ymchwilio i ba wybodaeth a ddarperir yn eu cymunedau eu hunain. |

| Gweithgaredd 1 | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| Carthion a Draeniau<br>Dangoswch y System Garthffos Gyfun ar y Pŵer Bwynt. Gofynnwch i'r dosbarth astudio'r diagram ac esbonio beth maen nhw'n gallu ei weld/beth maen nhw'n meddwl sy'n digwydd. Esboniwch sut mae system garthffos gyfun yn gweithio (defnyddiwch y nodiadau gwybodaeth gefndirol os oes angen). Esboniwch mai hyd at 20 mlynedd yn ôl, roedd gan bob tŷ yng Nghymru system garthffos gyfun – gofynnwch iddyn nhw ystyried pa system garthffos sydd yn eu tai nhw.<br><br>Hefyd, esboniwch beth yw pwrpas draeniau llifogydd a'u bod yn gollwng yn syth i'r cefnfor. Gofynnwch iddyn nhw ystyried sut mae sbwriel yn cael effaith yma<br><br>Esboniwch y ffeithiau sy'n cyfrannu at y broblem hon<br>• Glaw trwm/cynyddol<br>• Sbwriel yn mynd i mewn i ddraeniau llifogydd<br>• Eitemau anaddas yn cael eu fflysio<br><br>Dangoswch y System Garthffos ar Wahân ar y Pŵer Pwynt. Gofynnwch y dosbarth i astudio'r diagram hwn ac esbonio beth maen nhw'n gallu ei weld/ beth maen nhw'n meddwl sy'n digwydd.<br><br>Dangoswch y ddwy System Garthffosiaeth. Gofynnwch i'r dosbarth esbonio pa un yw'r system orau. Esboniwch er bod y System ar Wahân yn datrys y broblem gychwynnol lanweithiol, mae problem enfawr y draeniau llifogydd a sbwriel dal yn bodoli (dangoswch ddiagram o draen llifogydd a sbwriel). Trafodwch ble ydych chi'n dod o hyd i draeniau llifogydd - o gwmpas yr ysgol, yn y gymuned, ger eu cartrefi ac yn y blaen. Gallwch fynd allan a chwilio am ddraen ger yr ysgol. Beth y gellir ei wneud i helpu atal y problemau hyn? Rhestrwch bob un o'r syniadau. Dangoswch y lluniau o'r stensiliau draen - yna gofynnwch iddyn nhw ddylunio rhai eu hunain. Gellir defnyddio'r rhai o amgylch tir yr ysgol/cymuned os caniateir | Cyflwyno Stopio'r Bloc<br><br>Nodiadau Gwybodaeth Gefndirol<br><br>DS: Mae pob un o'r lluniau yn y Cyflwyniad Stopio'r Bloc<br><br>Cerdyn<br>Pensiliau<br>Sisyrnau<br><br>sialc/paent chwistrell (os oes hawl i chi eu defnyddio ar y draeniau) |

| **Gweithgaredd 2** | Adnoddau ac Offer |
| --- | --- |
| **Beth ydyn ni'n fflysio?**<br>Gwyliwch y fideo 'Loo Loo's Clubs' [https://youtu.be/kwi5w0Qvc9I](https://youtu.be/kwi5w0Qvc9I) (1:59)<br><br>Trafodaeth – Mae'r 3P (pi-pi, pŵ a phapur) yn iawn ond beth **ddylech chi ddim** fflysio i lawr y tŷ bach?<br><br>Gofynnwch i'r dosbarth pam maen nhw'n meddwl hyn? Pa broblemau eraill fyddai'r eitemau eraill yn eu hachosi?<br><br>Dangoswch ac egluro'r diagram 'o'r ystafell ymolchi i'r traeth' ('bathroom to beach' ) o'r ymgyrch Unflushables \| City to Sea \| The things you really shouldn't flush!. Gofynnwch iddyn nhw beth yw'r prif droseddwyr yn eu barn nhw (ffeithiau yn y nodiadau cefndirol am fwy o fanylion)<br><br>Trafodaeth – Beth maen nhw'n meddwl sy'n digwydd i eitemau na ellir eu fflysio sy'n cael ei fflysio i lawr y toiled? Ydyn nhw'n meddwl eu bod yn dadelfennu, aros mewn un darn ac ati?<br><br>Arbrawf<br>• 4 cynhwysydd clir gyda chaeadau (e.e. jariau mawr neu boteli) sydd hanner wedi'u llenwi â dŵr<br>• Weip gwlyb<br>• Ychydig o ddarnau o bapur tŷ bach<br>• Tusw<br>• Darn o bapur cegin<br><br>(Gallwch hefyd ddefnyddio eitemau eraill nad ellir eu fflysio - gwlân cotwm, ffon gotwm, tampon. Neu gallwch wneud yr arbrawf gyda weip gwlyb ac un o'r eitemau eraill).<br><br>Trafodwch gyda'r dosbarth pa eitemau maen nhw'n meddwl sy'n iawn i'w fflysio ac a fyddai'n iawn i'w fflysio/ wedi fflysio eu hunain. Pam maen nhw'n meddwl ei fod yn iawn?<br><br>Rhowch bob un o'r eitemau mewn cynhwysydd ar wahân gyda'r caead ymlaen a gofynnwch i 4 disgybl eu hysgwyd am tua 30 eiliad. Bydd y papur tŷ bach yn dadelfennu ond ni fydd y lleill.<br><br>Gofynnwch i'r dosbarth – beth sydd wedi digwydd i'r eitemau yn y jariau? Beth yw eu barn ar ba un o'r eitemau sy'n iawn i fflysio nawr a pham?<br><br>Esboniwch mai weips gwlyb yw'r troseddwyr gwaethaf a rhowch y ffeithiau i'r disgyblion (nodiadau'r athro). | Fideo Loo Loo's Club<br><br>Cyflwyniad Stopio'r Bloc<br><br>Cyfrifiadur /taflunydd 4 cynhwysydd clir gyda chaeadau (e.e. jariau mawr) hanner wedi'u llenwi â dŵr<br><br>Weip gwlyb<br><br>Ychydig o ddarnau o bapur tŷ bach<br><br>Tusw<br><br>Darn o bapur cegin<br><br>Unrhyw eitemau perthnasol eraill rydych yn dymuno eu defnyddio (e.e. eitem ar gyfer y mislif , neu ffon gotwm (cotton bud)) |

| | |
|---|---|
| Dangoswch y llun cyntaf o fynydd braster i'r disgyblion a gofyn iddyn nhw beth maen nhw'n meddwl yw e. Yna esboniwch beth yw e (nodiadau'r athro). Ewch drwy'r cyflwyniad yn esbonio effaith mynyddoedd braster sy'n cael ei phwysleisio ymhellach gan luniau y llifogydd amgylcheddol. Esboniwch fod pob un o'r lluniau hyn wedi'u tynnu yng Nghymru - dyma beth sy'n digwydd yn ein carthffosydd.<br><br>Gofynnwch iddyn nhw feddwl am sut y gellid osgoi'r problemau hyn | Cyflwyniad Stopio'r Bloc |

| **Gweithgaredd 3 – Stopio'r Bloc** | **Adnoddau ac Offer** |
|---|---|
| Edrychwch ar rai o'r adnoddau isod i weld manylion am ymgyrchoedd sy'n ceisio dod i'r afael â'r broblem hon –<br><br>Poster - citytosea.org.uk<br>Fideo - https://youtu.be/csKOddp_y8A(0:10)<br>Poster - SC_bathroom_V7.jpg (4961×3508) (seachangeproject.eu)<br>Poster -Dirty-Dozen-English-2019.jpg (2339×3308) (thinkbeforeyouflush.org)<br>Taflen - TBYF-brochure.jpg (847×595) (thinkbeforeyouflush.org)<br>Gwefan - Think Before You Flush<br><br>Meddyliwch am y toiledau yn eich ysgol, beth sy'n cael ei wneud i sicrhau nad yw'r '**Pethau nad ellir eu fflysio'** yn cael eu rhoi yn y tŷ bach?<br><br>Bydd pob disgybl (neu mewn parau) yn cynllunio/dylunio ymgyrch fer i godi ymwybyddiaeth yn yr ysgol o'r pethau nad ellir ei fflysio a pham bod hyn yn bwysig. Anogwch nhw i fod mor greadigol â phosibl er mwyn dal sylw pobl a sicrhau'r hyn maen nhw'n ei greu yn addas i'w bwrpas a'i gynulleidfa (e.e. pwrpas - codi ymwybyddiaeth o'r pethau **NAD** ellir eu fflysio, cynulleidfa - disgyblion eraill yn yr ysgol).<br><br>Gall yr ymgyrchoedd gynnwys – posteri, taflenni, fideos, logos a sloganau, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Dylid dangos a rhannu syniadau â gweddill y dosbarth a thrafod eu heffaith bosibl | Cyfrifiadur/taflunydd<br><br>Papur/beiros<br><br>Dyfeisiau ar gyfer ymchwil (pob pâr)<br><br>Dyfeisiau ar gyfer ffilmio os oes angen. |

#ArFrigYDon

Cymhwyso’r wybodaeth a gafodd ei chasglu yn y wers fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae’n agwedd bwysig i sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod ganddynt y pŵer i weithredu a gwneud newidiadau yn eu bywydau eu hunain ac o fewn yr ysgol. Mae’n gam cadarnhaol hefyd sy’n helpu i gydbwyso rhai o’r effeithiau negyddol a gafodd eu harchwilio yn y wers.

Penderfynu ar weithred/gweithredoedd i’w cymryd naill ai fel unigolion neu ddosbarth. Dyma rai awgrymiadau neu gallai’r dosbarth benderfynu ar rai eu hunain.

Ysgol:

- Trefnu casglu sbwriel ar diroedd yr ysgol yn rheolaidd
- Gweithredu ar yr ymgyrchoedd a gafodd eu creu yn y dosbarth – cydweithio a defnyddio’r adnoddau yr ydych wedi’u dylunio i ddechrau ymgyrch yn yr ysgol

Unigolion:

- Gweithredu ar yr hyn yr ydych wedi’i ddysgu heddiw - gwnewch yn siŵr yr ydych yn fflysio’r pethau cywir yn unig. Taflwch weips, eitemau ar gyfer y mislif, ffyn cotwm a chewynnau yn y bin.
- Peidiwch â thaflu sbwriel! Pwysleisiwch i eraill y gall sbwriel fynd i’r afonydd a’r moroedd a’i fod yn niweidiol iawn i’r amgylchedd.
- Cefnogwch ymgyrchoedd wedi’u trefnu megis ‘Unblocker awareness campaign’, ‘Surfers Against Sewage’, ‘#EndSewagePollution. Ailgylchwch ac addo ‘#StopFlushingWipes’ gyda’r ‘Rivers Trust’.

| Gweithgareddau Gwahanol | Adnoddau ac Offer |
| --- | --- |
| Gweithgaredd 1<br>Gwyliwch bennod Panarama 'River Pollution Scandal' i weld ffyrdd eraill mae carthion heb ei drin yn cyrraedd ein dyfroedd.<br><br>https://www.bbc.co.uk/programmes/m000vk71<br><br>Fel dosbarth, trafodwch ffyrdd i fynd i'r afael â'r broblem benodol hon (megis ysgrifennu llythyron i'r cwmnïau dŵr) a gweithredu rhai o'r syniadau a'r camau gweithredu.<br><br>Gweithgaredd 2<br>Gwyliwch y fideo Dŵr Cymru isod -<br>Mae Ella yn esbonio -<br>https://www.youtube.com/watch?v=eY80E269m9M<br>(1:38)<br><br>Y disgyblion i feddwl am ffyrdd i osgoi hyn (naill ai ar y bwrdd gwyn fel dosbarth neu gan ddefnyddio diagram corryn fel parau/unigolion). | Fideo Llygredd Afonydd |

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy


33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru



Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13

Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13